



# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Colwinston Childcare**

**Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant  
Tregolwyn  
Y Bontfaen  
CF71 7NL**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



**Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad**

24/01/2020

**Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.**

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)

*Rhaid i chi atavnhychu ein deunydd yn fanwl gwir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cwl-destun*

<b>Graddau</b>	<b>Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu</b>
<b>Rhagorol</b>	Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant.
<b>Da</b>	Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol.
<b>Digonol</b>	Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant.
<b>Gwael</b>	Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio.

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Cofrestrwyd Colwinston Childcare ym mis Mehefin 2019 a chaiff ei redeg gan lywodraethwyr Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant. Mae'r cylch chwarae yn cael ei gynnal yn adeilad yr ysgol ac mae ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 11:30 a 3:30pm. Mae'r gwasanaeth yn darparu gofal i hyd at 20 o blant tair a phedair oed. Mary Sharp yw'r person â chyfrifoldeb, sy'n rheoli'r gwasanaeth o ddydd i ddydd. Ceri Hoffrock, y pennaeth, yw'r unigolyn cyfrifol sy'n goruchwyllo'r gwasanaeth ar ran y llywodraethwyr. Darperir gofal drwy gyfrwng y Saesneg, a gwneir defnydd da o Gymraeg achlysurol.

### Crynodeb

Thema	Gradd
<a href="#">Llesiant</a>	Rhagorol
<a href="#">Gofal a Datblygiad</a>	Da
<a href="#">Yr Amgylchedd</a>	Da
<a href="#">Arwain a Rheoli</a>	Da

#### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant wrth eu bodd yn y gwasanaeth ac maent yn ffynnu yno. Maent yn cael budd o amrywiaeth dda iawn o weithgareddau i gefnogi eu datblygiad cyffredinol. Mae'r plant yn meithrin cydberthnasau cynnes a magwrus â'r staff, sy'n eu hadnabod yn dda. Mae adnoddau o safon dda yn yr amgylchedd ac mae'r ardaloedd chwarae dan do ac yn yr awyr agored yn ddeniadol. Mae'r arweinyddiaeth yn gadarn ac yn bodloni gofynion Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd Cymru (2010) a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

#### 2. Gwelliannau

Hwn oedd yr arolygiad cyntaf ers i'r gwasanaeth gofrestru.

#### 3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaethom ni (Arolygiaeth Gofal Cymru) bedwar argymhelliad arfer da, sydd wedi'u crynhoi yn adran 5.

# 1. Llesiant

# Rhagorol

## Crynodeb

Mae'r plant yn cael gwasanaeth rhagorol sy'n darparu cyfleoedd parhaus ac ystyrion i ryngweithio ac amrywiaeth eithriadol o adnoddau a gweithgareddau i hybu eu datblygiad cyffredinol. Maent yn cael llawer o gyfleoedd i fynegi eu hunain ac i wneud dewisiadau am chwarae a gweithgareddau. Mae gan y plant gydb berthnasau cadarn â'i gilydd a'r staff. Mae'r plant yn hapus iawn ac yn cael llawer o hwyl wrth chwarae; maent yn datblygu'n dda ac yn meithrin annibyniaeth.

## Ein canfyddiadau

Mae pob plentyn yn gallu cyfrannu syniadau a gwneud penderfyniadau am weithgareddau, caneuon, straeon a'r ffordd y mae'n treulio'i amser yn y gwasanaeth. Maent yn symud yn rhydd rhwng amrywiaeth eang o weithgareddau, a hynny dan do ac yn yr awyr agored; ac mae eu chwarae yn hunangyfeiriedig gan amlaf. Mae'r plant yn mynegi eu hunain yn eithriadol o dda a gwelsom fod y staff bob amser yn gwranddo'n ofalus, gan ddangos diddordeb yn yr hyn yr oedd gan y plant i'w ddweud ac ymateb yn gadarnhaol. Mae gan y plant lais cadarn iawn ac maent yn mynegi eu hanghenion a'u dymuniadau'n hyderus.

Mae'r plant yn meithrin cydberthnasau cynnes iawn â'i gilydd a'r staff. Roedd y plant yn hapus iawn wrth gyrraedd ac yn cyfarch ei gilydd â gwên. Mae anghenion unigol y plant yn cael eu cydnabod yn llawn. Er enghraifft, gall aelod o'r teulu aros gyda'r plentyn er mwyn ei gyflwyno'n raddol i'r arferion dyddiol fel y gall setlo'n gyfforddus. Mae'n amlwg bod y plant yn gyfarwydd â'r arferion dyddiol ac yn eu mwynhau; gwnaethant roi eu cotiau ar y bachau a hunangofrestru; gwnaethant ateb cwestiynau'n frwd yn ystod amser cylch; gwnaethant dacluso ar ddiwedd y gweithgareddau ac ymuno'n frwd pan oedd caneuon cyfarwydd yn cael eu canu. Mae'r plant yn cael ymdeimlad o berthyn am fod y staff yn eu hadnabod yn dda ac yn siarad am eu teuluoedd; mae enwau'r plant ar y bachau cotiau; ac mae eu gwaith a ffotograffau ohonynt wedi'u harddangos yn yr ystafell chwarae. Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus iawn.

Mae'r plant yn cydweithredu ac yn chwarae â'i gilydd yn dda iawn. Clywsom y plant yn dweud 'please' a 'thank you' heb anogaeth; fe'u gwelsom yn rhannu adnoddau ac yn ymroi i chwarae'n ddychmygus â'i gilydd. Gwnaeth y plant weini bwyd i'w gilydd yn y caffi chwarae; gwnaethant basio darnau o bren i'w gilydd er mwyn adeiladu ramp ar gyfer ceir; gwnaethant gymryd eu tro wrth chwarae 'Beth sydd yn y bocs' a gwnaethant helpu'n frwd i dacluso teganau ac adnoddau. Eisteddodd y plant yn dawel pan ofynnwyd iddynt wneud hynny a gwnaethant wrando'n astud ar straeon. Gwnaethant wenu'n falch pan gawsant eu canmol am ymddygiad cydweithredol a charedig ac am gyflawni nodau personol. Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda iawn â'u ffrindiau a'r staff.

Mae'r plant yn ddysgwyr gweithgar a chwilfrydig ac maent yn ymgysylltu'n rhydd â gweithgareddau dan do ac y tu allan i'r ystafell chwarae. Maent yn cael llawer o ganmoliaeth ac anogaeth gan y saff, er mwyn hybu eu hunan-barch, eu teimladau o gyflawniad a'u hyder. Roedd y plant yn ymroi i'w gweithgareddau am gyfnodau da o amser ac roeddent yn awyddus i siarad am yr hyn yr oeddent yn ei wneud. Dywedodd un plentyn ei fod wedi mwynhau'r craceri Tsieineaidd crensiog roedd wedi'u blasu; gwnaeth un arall gyfrif i ddeg yn Gymraeg i ni yn falch. Roedd y plant yn llawn cyffro wrth greu llusernau Tsieineaidd gydag aelod o'r staff ac roeddent yn awyddus i'w dangos i'w rhieni ar ddiwedd y dydd. Mae'r plant yn mwynhau eu cyfleoedd chwarae a'u dysgu yn fawr iawn.

Mae'r plant yn dod yn gynyddol annibynnol am eu bod yn cael llawer o gyfleoedd i archwilio, datblygu a dysgu. Mae'r plant yn cymryd rhan yn frwd mewn amrywiaeth eang o weithgareddau cyffrous sy'n cefnogi eu dysgu. Maent yn dod o hyd i'w ffotograff ac yn ei roi ar fand gwyrdd y bwrdd cofrestru siâp enfys, ac maent yn gwybod y gallant symud i fyny neu i lawr yr enfys gan ddibynnu ar eu cyflawniadau a'u hymddygiad. Mae'r plant yn golchi eu dwylo ac yn gwisgo heb fawr ddim anogaeth na chymorth. Maent yn helpu eu hunain i ddŵr ac yn bwyta'n annibynnol yn ystafell fwyta'r ysgol. Defnyddiwyd y Gymraeg drwy gydol y sesiynau a dangosodd y plant fod ganddynt ddealltwriaeth dda o'r iaith a'u bod yn gallu ei defnyddio; er enghraifft, clywsom y plant i gyd yn defnyddio geiriau Cymraeg am rifau a lliwiau; roeddent yn dweud 'os gwelwch yn dda' a 'diolch' fel mater o drefn ac roeddent yn canu caneuon Cymraeg. Gwnaeth grŵp o chwech o blant chware gêm ddyfalu yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r plant yn gwneud cynnydd rhagorol ac yn datblygu'n dda.

## 2. Gofal a Datblygiad

Da

### Crynodeb

Mae'r staff yn cydweithio'n dda iawn ac maent yn ymateb i anghenion a dewisiadau'r plant. Maent yn gwybod yn iawn sut i gadw'r plant yn ddiogel a hybu iechyd da. Mae'r staff yn fodolau rôl da. Maent yn rheoli'r rhyngweithio rhwng y plant mewn ffordd hynod gadarnhaol, gyda phwyslais mawr ar ddathlu cyflawniadau'r plant er mwyn hybu eu hunan-barch a'u hyder. Mae'r staff yn ymwybodol o anghenion a dewisiadau pob plentyn ac yn darparu amrywiaeth eang o weithgareddau priodol er mwyn annog y plant i ddysgu a datblygu.

### Ein canfyddiadau

Mae gan y staff wybodaeth dda am y polisiau a'r gweithdrefnau sydd ar waith yn y gwasanaeth i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae polisi diogelu clir yn amlinellu'r gweithdrefnau ar gyfer rhoi gwybod am bryderon am blant i'r asiantaeth briodol os bydd angen. Mae'r ysgol yn hybu bwyta'n iach. Anogir y rhieni i ddarparu byrbrydau iach a gwelsom y staff yn hybu opsiynau iach amser cinio. Roedd gan y staff wybodaeth dda am unrhyw blant yr oedd ganddynt alergeddau, anghenion deietegol neu anghenion yn ymwneud â meddyginiaeth. Gwelsom arferion hylendid da. Roedd yr amgylchedd, y teganau a'r offer yn lân iawn a gwelsom fod y staff yn sicrhau bod y plant yn golchi eu dwylo'n drylwyr cyn bwyta ac ar ôl mynd i'r toiled.

Mae'r staff yn gweithio yn unol â'r polisi ymddygiad ac maent yn gweithredu mewn modd cyson. Maent yn fodolau rôl da, gan drin y plant â pharch a'u gwerthfawrogi fel unigolion. Roedd y staff yn gwrando gan dalu sylw; roeddent yn ddigynnwrf ac roedd ganddynt ddiddordeb yn yr hyn yr oedd gan y plant i'w ddweud, a oedd yn hybu hyder a sgiliau cymdeithasol. Clywsom lawer o ganmoliaeth am ymddygiad cadarnhaol a phan oedd angen atgoffa'r plant, roedd y staff yn siarad yn ddigynnwrf ac yn glir am yr hyn a ddisgwylid a pham. Roedd y staff yn defnyddio ymadroddion rheolaidd a chaneuon, ac yn defnyddio llais tawel er mwyn denu sylw ac annog cydweithrediad. Hefyd, defnyddir 'Spencer Bear' i wobrwyo cyflawniadau'r plant ac roedd y plant yn awyddus iawn i glywed â phwy y byddai'n mynd adref dros y penwythnos. Roedd y staff yn mynd ati'n effithiol i annog y plant i eistedd gyda'i gilydd a thalu sylw i'r straeon a'r gemau grŵp, a fydd yn eu paratoi ar gyfer trosglwyddo i'r ysgol ac addysg fwy ffurfiol.

Mae'r staff yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad cyffredinol y plant yn effeithiol. Maent yn monitro ac yn asesu cynnydd y plant ac yn cynllunio gweithgareddau cyffrous sy'n briodol i'w cam datblygu, er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn gallu cymryd rhan, cael hwyl a dysgu. Gwelsom fod y staff yn annog ac yn hwyluso dysgu'r plant ac yn dathlu pob llwyddiant. Mae arwyddion dwyieithog ym mhob ardal yn annog y plant i adnabod a defnyddio'r Gymraeg a chlywsom y staff yn defnyddio geiriau ac ymadroddion Cymraeg drwy gydol y dydd. Mae'r staff yn cefnogi gwybodaeth y plant am y byd a gwahanol ddiwylliannau drwy lyfrau, bwyd, teganau, gweithgareddau ac amryw ddathliadau. Mae'r staff yn annog y plant i ddefnyddio'r

ardal chwarae fwy agored pryd bynnag y bo hynny'n bosibl, er mwyn datblygiad corfforol ac ymarfer corff.

### **3. Yr Amgylchedd**

**Da**

#### **Crynodeb**

Mae'r plant yn cael profiad o amrywiaeth dda o gyfleoedd chwarae a dysgu am fod yr arweinwyr yn creu amgylchedd deniadol ac ysgogol, dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Mae'r safle a'r adnoddau yn hygyrch iawn ac yn addas ar gyfer ystod oedran y plant. Mae'r adnoddau a'r offer o ansawdd da ac yn cyfoethogi dysgu a datblygiad cyffredinol y plant.

#### **Ein canfyddiadau**

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da, dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r cylch chwarae a'r ardaloedd chwarae awyr agored yn ddiogel rhag ymwelwyr diawdurdod; ceir asesiadau risg addas ar gyfer y safle a'r gweithgareddau; ac mae yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ar waith ar gyfer y gwasanaeth. Caiff pob damwain a digwyddiad eu cofnodi a gwelsom eu bod yn rhai nodweddiadol ar gyfer yr ystod oedran ac nad oeddent yn codi unrhyw bryderon am ddiogelwch yr amgylchedd. Mae arferion hylendid da yn lleihau risgiau i'r plant. Gwelsom y staff yn glanhau'r byrddau â hylif gwrthfacterol; roedd y teganau a'r offer yn lân ac mewn cyflwr da ac ni welsom unrhyw beryglon yn ystod yr ymweliad. Roedd yr archwiliadau ar gyfer y system wresogi, larwm tân ac offer cludadwy yn gyfredol. Roedd cofnodion yr ysgol yn dangos bod y cylch chwarae yn cynnal ymarferion tân rheolaidd gyda'r ysgol gyfan. Roedd y plant yn ymwybodol o'r broses ac yn gwybod beth i'w wneud pan fyddent yn clywed y larwm yn canu. Dylai'r arweinwyr gadw cofnod ar wahân o'r ymarferion tân ar gyfer y cylch chwarae.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y safle yn addas iawn, yn gyfeillgar i blant, yn ysgogol ac yn hybu dysgu'r Cyfnod Sylfaen. Roedd yr ystafell chwarae yn olau ac yn agored, gyda digon o le ar gyfer amrywiaeth dda o weithgareddau yn ogystal ag ardaloedd i'r plant ymlacio. Roedd yr ardaloedd chwarae wedi'u gosod yn dda, gyda'r adnoddau o fewn cyrraedd y plant er mwyn annog dewis ac annibyniaeth. Mae'r dodrefn a'r offer yn briodol i oedran y plant ac o faint addas i blant. Mae arwyneb llawr y gellir ei olchi yn golygu bod modd cynnal gweithgareddau chwarae blêr; mae ardal gwisgo i fyny ac ardal 'caffi' yn annog chwarae rôl dychmygus; mae ardal â charped a chlustogau yn darparu ardal ar gyfer darllen, cysur a myfyrio. Ceir ardal chwarae wedi'i gorchuddio, o faint da, yn yr awyr agored ar gyfer chwarae ym mhob tywydd, sy'n cynnwys gardd natur a thai bach twt. Mae'r plant hefyd yn defnyddio maes chwarae a chae chwarae'r ysgol.



Mae'r arweinwyr yn darparu amrywiaeth eang o adnoddau o ansawdd da er mwyn annog chwilfrydedd a dychymyg y plant a chefnogi eu dysgu a'u datblygiad. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio eitemau bob dydd ac eitemau wedi'u hailgylchu ar gyfer gweithgareddau crefft er mwyn codi ymwybyddiaeth y plant o faterion amgylcheddol. Gwelsom amrywiaeth eang o adnoddau o ansawdd da gan gynnwys llyfrau ac adnoddau amlddiwylliannol sy'n adlewyrchu'r gymdeithas ehangach ac yn hyrwyddo cydraddoldeb. Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelwyd y plant yn mwynhau dysgu am ddiwrnod Santes Dwynwen a'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, drwy straeon, caneuon, celf a chrefft a blasu bwyd.

## **4. Arwain a Rheoli**

**Da**

### **Crynodeb**

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y cylch chwarae yn cael ei redeg yn dda a bod y lefelau staffio'n gywir. Maent yn sicrhau bod anghenion y plant yn cael eu diwallu; fod y polisiau a'r gweithdrefnau'n glir ac yn effeithiol; a bod y staff yn cael eu cefnogi drwy oruchwyliaeth a chyfleoedd hyfforddi. Roedd yr arweinwyr yn ymgysylltu'n llawn â'r broses arolygu ac maent yn ymdrechu i sicrhau eu bod yn cyrraedd y safonau gofynnol cenedlaethol ac yn cydymffurfio â'r rheoliadau.

### **Ein canfyddiadau**

Mae'r gwaith o redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd yn effeithiol, ac mae'n cael ei redeg yn ddiraffferth. Mae'r datganiad o ddiben yn rhoi disgrifiad clir o'r gwasanaeth a'r hyn y mae'n bwriadu ei ddarparu, er mwyn i rieni allu gwneud penderfyniad gwybodus ynghylch ei addasrwydd ar gyfer eu plant. Gwnaethom edrych ar y cofrestru dyddiol, proffiliau a chynlluniau datblygu'r plant, a gedwir yn ddiogel yn yr ystafell chwarae, a gwybodaeth berthnasol a gedwir yn swyddfa'r ysgol. Roedd yr holl gofnodion a dogfennau a welsom yn fanwl ac yn cael eu cadw'n dda. Roedd y polisiau a'r gweithdrefnau wedi'u hysgrifennu'n dda a dywedwyd wrthym y byddant yn cael eu hadolygu o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae cofnodion electronig yn rhoi trosolwg i'r arweinwyr o hyfforddiant, goruchwyliaeth, damweiniau ac ati at ddibenion monitro ac adolygu. Gwelsom fod y rhieni wedi llofnodi eu contractau ac wedi llofnodi i gadarnhau eu bod yn ymwybodol o'r polisiau a'r gweithdrefnau. Roeddent hefyd wedi llofnodi amryw ffurflenni caniatâd a chofnodion damweiniau. Mae'r arweinwyr yn effeithiol ac yn darparu gwasanaeth o safon.

Mae gweithdrefnau hunanwerthuso ar waith ac mae'r arweinwyr yn ymgynghori â'r rheini, y plant a gweithwyr proffesiynol eraill fel rhan o'r broses. Mae'r staff yn ceisio barn y plant am weithgareddau drwy ofyn iddynt neu gofnodi'r hyn y maent yn mwynhau ei wneud a'r ffordd y maent yn ymateb. Gwelsom fod y staff yn gwerthuso gweithgareddau yn gyson ac yn gwneud newidiadau yn ôl yr angen. Roedd hyn yn dangos bod y staff yn ystyried anghenion a dewisiadau'r plant ac, o ganlyniad, fod y plant yn parhau i ymddiddori yn eu gweithgareddau dysgu ac yn eu mwynhau. Mae'r arweinwyr yn ymwybodol o'r angen i gynnwys y plant, y rhieni, y staff a gweithwyr proffesiynol mewn adolygiad ffurfiol o ansawdd y gofal a llunio

adroddiad ar yr adolygiad hwnnw. Mae polisi cwynion addas ar waith pe bai rhieni am wneud cwyn. Nid yw'r gwasanaeth nac AGC wedi derbyn unrhyw gwynion.

Mae'r staff yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac maent yn glir ynglŷn â'u cyfrifoldebau. Gwelsom fod y cymarebau staff bob amser yn cyrraedd y safon ofynnol genedlaethol neu'n rhagori arni, sef un aelod o staff i bob wyth o blant, a bod cymhareb staffio 1:1 ar gyfer plant sydd ag anghenion ychwanegol. Mae'r arweinwyr yn dilyn prosesau recriwtio diogel ac roedd ffeiliau'r staff yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol. Roedd gan y staff gymwysterau priodol mewn gofal, dysgu a datblygiad plant; cymorth cyntaf pediatrig ac amddiffyn plant; ac roedd cofnodion o gyfarfodydd goruchwyllo rheolaidd ac arfarniadau a gynhaliwyd gan yr unigolyn cyfrifol. Dywedodd y staff eu bod yn hapus iawn yn eu gwaith a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. Mae'r arweinwyr yn rheoli'r staff a'r adnoddau yn effeithiol.

Mae gan yr arweinwyr a'r staff gydberthnasau rhagorol â'r rhieni a'r ysgol ehangach, sydd o fudd mawr i'r plant. Mae'r staff yn siarad â'r rhieni er mwyn cael gwybod am anghenion eu plentyn, ei ddewisiadau a'i arferion dyddiol, ac maent yn defnyddio Proffil y Cyfnod Sylfaen i fapio cam datblygu pob plentyn. Mae'r arweinwyr yn cydnabod y budd parhaus a geir drwy gynnwys y rhieni yn natblygiad eu plentyn, ac maent yn estyn croeso i'r rhieni aros yn ystod y sesiynau cyntaf ac i ddod i 'ginio teulu' er mwyn helpu'r plant i setlo. Ceir cyfathrebu effeithiol â'r rheini drwy sgysiau dyddiol, cofnodion, hysbysfwrdd, e-bost a chylchlythyrau. Roedd yr holl rieni y gwnaethom siarad â nhw yn fodlon iawn ar y gwasanaeth, ac mae llawer o'r rhieni yn gwirfoddoli ac yn codi arian ar gyfer yr ysgol. Mae gan y staff gysylltiadau da â gweithwyr proffesiynol eraill fel therapyddion lleferydd ac iaith a gweithwyr amddiffyn plant er mwyn diwallu anghenion y plant. Ceir cysylltiadau rhagorol â'r ysgol. Mae'r plant yn mynychu digwyddiadau rheolaidd yn yr ysgol ehangach, sy'n helpu i wneud y broses bontio yn haws i'r plant. Mae'r partneriaethau'n effeithiol ac yn llwyddiannus.

## **5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn**

### **4.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol**

Dyma'r tro cyntaf i'r gwasanaeth gael ei arolygu.

### **4.2 Argymhellion ar gyfer gwella**

Gwnaethom yr argymhellion canlynol:

- cadw cofnodion ymarferion tân sy'n benodol i'r cylch chwarae;
- dilyn canllawiau arfer gorau Llywodraeth Cymru, sef 'Bwyd a Maeth ar gyfer lleoliadau Gofal Plant', er mwyn hybu bwyta'n iach ymhellach;
- cwblhau'r Adnodd Archwilio Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer lleoliadau Gofal Plant er mwyn cefnogi arferion gweithio da;
- casglu adborth gan y rhieni, y plant ac eraill a chyflwyno'r canfyddiadau mewn adroddiad ar ansawdd y gofal.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad dirybudd a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Daeth un arolygydd i ymweld â'r gwasanaeth gan gyrraedd cyn i'r sesiwn ddechrau, ac arhosodd am y sesiwn gyfan.

- Gwnaethom siarad â'r plant, chwe rhiant, dau aelod o staff y cylch chwarae, gweinyddwr y swyddfa, y person â chyfrifoldeb a'r unigolyn cyfrifol;
- gwnaethom arsylwi ar y plant a'r staff yn yr ystafell chwarae ac yn yr awyr agored;
- gwnaethom arsylwi ar y plant gan ddefnyddio adnodd SOFI-2 er mwyn nodi tystiolaeth o ymgysylltiad y plant a'r gofal a ddarperir gan y staff;
- gwnaethom archwilio'r safle;
- gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion, dogfennaeth a pholisïau;
- gwnaethom ddarparu adborth i'r unigolyn cyfrifol yn ystod yr arolygiad ac i'r person â chyfrifoldeb ar ddiwedd yr arolygiad.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:

[www.arolygiaethgofal.cymru](http://www.arolygiaethgofal.cymru)

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

Y math o ofal a ddarperir	Gofal Dydd Plant Gofal Dydd Sesiynol
Unigolyn Cyfrifol	Ceri Hoffrock
Person â chyfrifoldeb	Mary Sharp
Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd	20
Ystod oedran y plant	3 – 4 oed
Oriau agor	Rhwng 11.30am a 3.30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener
Iaith weithredol y gwasanaeth	Saesneg
Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	Ddim yn berthnasol - Arolygiad Cyntaf
Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn	24 Ionawr 2020
A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?	Nac ydy
A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?	Nac oes
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	Mae'r gwasanaeth hwn yw gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Gwelsom amrywiaeth dda o bosteri, llyfrau a deunyddiau dwyieithog, a chlywsom lawer o Gymraeg achlysurol wrth i'r staff ymgorffori'r Gymraeg a chaneuon Cymraeg i bob gweithgaredd gyda'r plant. Gwelsom fod hyfforddiant iaith Gymraeg ar gael i'r staff er mwyn gwella eu sgiliau.
Gwybodaeth Ychwanegol:	

**Dyddiad Cyhoeddi 18/03/2020**